



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Siambwr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX** ar **DYDD IAU, 2AIL AWST, 2018** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 31 GORFFENNAF 2018, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf, 2018.

5 - 16

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR GWASANAETH – MATERION CYNLLUNIO

5. CAIS: 18/0618

Dymchwel yr hen Floc Gwaith Coed a chodi adeilad newydd yn cynnwys 6 fflat. Ailwampio a throsi Tŷ Gofalwr blaenorol yn 2 fflat gan gynnwys dymchwel ac ailosod estyniad unllawr. Adeiladu cyntedd cyswllt gwydr deulawr rhwng yr adeiladau, cynnal gwaith i'r wal derfyn bresennol i symud mynediad i gerddwyr a gwaith allanol cysylltiedig, Bloc Gwaith Coed a Thŷ Gofalwr. Hen Ysgol Gyfun Coed Y Lan, Lanpark Road, Pontypridd.

17 - 28

6. CAIS: 18/0620

Caniatâd Adeilad Rhestredig i ddymchwel yr hen Floc Gwaith Coed a chodi adeilad newydd yn cynnwys 6 fflat. Ailwampio a throsi Tŷ Gofalwr blaenorol yn 2 fflat gan gynnwys dymchwel ac ailosod estyniad unllawr. Adeiladu cyntedd cyswllt gwydr deulawr rhwng yr adeiladau, cynnal gwaith i'r wal derfyn bresennol i symud mynediad i gerddwyr a gwaith allanol cysylltiedig, Bloc Gwaith Coed a Thŷ Gofalwr, Hen Ysgol Gyfun Coed Y Lan, Lanpark Road, Pontypridd.

29 - 42

CEISIADAU WEDI'U GOHIRIO

7. CAIS: 18/0018/13

Datblygiad preswyl arfaethedig. Blake Street, Y Maerdy, Glynrhedynog, CF43 4AH.

43 - 70

8. CAIS: 18/0475

Cais Newid Defnydd o siop A1 i siop Bwyd i Fynd A3 ar y lloriau gwaelod a chadw fflatiau presennol gyda mynediad newydd yn y blaen a lle parcio ceir arfaethedig yn y cefn, 134 Stryd Bute, Treorci.

71 - 84

9. CAIS: 18/0482

Cais Newid Defnydd o siop A1 i siop Bwyd i Fynd A3 ar y lloriau gwaelod a chadw fflatiau presennol gyda mynediad newydd yn y blaen a lle parcio ceir arfaethedig yn y cefn, 135 Stryd Bute, Treorci.

85 - 98

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

10. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 09/07/2018 hyd at 20/07/2018.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.
Trosolwg o Achosion Gorfodi.
Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

99 - 110

11. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd S Powell,
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd J Harries and Y Cynghorydd R Yeo

Cyfarwyddwr Uwchadran Adfywio, Cynllunio a Thai
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd